**CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 13**

28 Mehefin 2023

Annwyl Gyfaill

Ar ôl misoedd lawer o ddadansoddi trylwyr ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid, rydym wedi cyhoeddi ein **hadroddiadau ar benderfyniadau'r ymgynghoriad TGAU Gwneud-i-Gymru** heddiw.

Gyda dros 2,100 o ymatebion i'n hymgynghoriad ar ddiwygio TGAU, mae cyd-greu gyda rhanddeiliaid fel chi wedi ein galluogi ni i ddefnyddio arbenigedd maes pwnc i fodloni anghenion dysgwyr. Felly, diolch i chi am y rhan y gwnaethoch chi ei chwarae yn y gwaith diwygio cyffrous hwn.

Fe wnaethom ni ystyried yn ofalus yr holl adborth a gawsom cyn cwblhau ein penderfyniadau, a gallwch nawr ddarllen **canlyniadau llawn yr ymgynghoriad, y crynodeb gweithredol**, ac **adroddiadau penderfyniadau pwnc** yn fanwl, ochr yn ochr ag **adroddiad sy'n addas i bobl ifanc**.

Gan gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru ac adlewyrchu ei egwyddorion cynnydd a'i bedwar diben, bydd y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru dwyieithog hyn yn datblygu sgiliau cyfannol a thrawsbynciol dysgwyr. Byddant yn cynnig sgiliau i ddysgwyr fydd yn eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu parhaus, a gwaith, gan eu helpu i ddod yn gymwys ar gyfer y dyfodol.

Mae llais y dysgwr wedi bod yn ganolog i'n gwaith o lunio cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd sydd:

- yn paratoi dysgwyr ar gyfer heriau cymdeithas fodern ac yn adlewyrchu amrywiaeth a'r byd rydym yn byw ynddo

**Qualifications Wales**
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

cymwysterau.cymru

**Cymwysterau Cymru**
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

- yn ymgorffori technolegau digidol er mwyn sicrhau bod cymwysterau'n addas ar gyfer y dyfodol
- yn cynnwys ystod o ddulliau asesu perthnasol, difyr ac amrywiol
- yn cefnogi iechyd meddwl a lles cadarnhaol ac yn hyrwyddo profiadau addysgu a dysgu cadarnhaol
- yn helpu dysgwyr i wneud cysylltiadau ystyrlon ar draws eu dysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Byddwn nawr yn gweithio'n agos gyda CBAC a Llywodraeth Cymru i ddatblygu manylion y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd hyn. Bydd y don gyntaf o gymwysterau TGAU newydd yn cael eu cymeradwyo erbyn mis Medi 2024, gan roi blwyddyn academaidd lawn i ysgolion baratoi ar gyfer eu haddysgu gyntaf ym mis Medi 2025. Bydd nifer fach o gymwysterau TGAU newydd yn cael eu cyflwyno mewn ail don yn 2026.

Bydd pecyn o adnoddau addysgu a dysgu ar gael i gefnogi'r cyfnod pontio, a byddwn hefyd yn cyhoeddi ein Hadroddiad Rheoli Newid yn ddiweddarach eleni.

**Rhagor o wybodaeth**

Os hoffech gael gwybod rhagor am ganlyniadau'r ymgynghoriad a phenderfyniadau lefel pwnc, cofrestrwch nawr i ymuno â'n cyfres o weminarau am ddim:

- adroddiad ymgynghori – 29 Mehefin - 15:30-17:00 - Cofrestru
- penderfyniadau'r dyniaethau - 3 Gorffennaf - 16:00-17:00 - Cofrestru
- penderfyniadau mathemateg a rhifedd - 5 Gorffennaf - 15:30-16:30 - Cofrestru
- penderfyniadau gwyddoniaeth a thechnoleg - 10 Gorffennaf - 15:30-16:30 - Cofrestru
- penderfyniadau iechyd a lles - 11 Gorffennaf - 15:30-16:30 - Cofrestru
- penderfyniadau ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu - 12 Gorffennaf - 16:00-17:00 - Cofrestru
- penderfyniadau'r celfyddydau mynegiannol - 13 Gorffennaf - 15:30-16:30 - Cofrestru

Mae rhagor o fanylion a chyhoeddiadau hefyd ar gael ar **wefan Cymwysterau Cymru**.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth, eich adborth a'ch cyfraniad. Rydym nawr yn edrych ymlaen at gam cyffrous nesaf ein gwaith diwygio *Cymwys ar gyfer y Dyfodol*, wrth i ni symud i bennod newydd ar gyfer addysg yng Nghymru.

Yn gywir



Philip Blaker, *Prif Weithredwr*